

Amodau Trwydded Safle Carafanau ar gyfer Carafanau Teithiol a Phebyll

Cyfansoddiad y Safle

Ni chaiff cyfanswm nifer yr unedau a ganiateir ar y safle fod yn fwy nag **X llain i garafanau teithiol a phebyll**.

Gellir meddiannu'r safle rhwng 1af Mawrth a 31ain Rhagfyr.

A: Ffiniau'r Safle

Rhaid i ffiniau'r safle gael eu nodi'n glir gan nodwedd artiffisial neu naturiol. Ni chaniateir lleoli unrhyw garafán na strwythur hylosg o fewn 3 metr i'r ffin. Rhaid darparu cynllun o'r safle i'r awdurdod lleol pan gyflwynir cais am drwydded, neu pan fydd newid pwysig i'r ffiniau neu'r cynllun, neu os bydd yr awdurdod yn gofyn am hynny. Rhaid i'r cynllun roi darlun clir o'r safle gan gynnwys yr holl strwythurau, nodweddion a chyfleusterau sydd arno.

B: Dwysedd

Ni chaiff dwysedd y safle fod yn fwy na 75 uned (carafanau, carafanau modur neu bebyll) fesul hectar (30 uned yr erw), wedi'i gyfrifo ar sail yr ardal y gellir ei defnyddio (h.y. heb gynnwys llynnoedd, ffyrdd, gwasanaethau cymunedol, a mannau eraill anaddas).

C: Lle Rhwng Carafanau neu Bebyll

Ni chaiff unrhyw uned, boed yn garafán neu'n babell, fod llai na 6 metr oddi wrth unrhyw uned arall sydd ym meddiant teulu gwahanol. Caniateir cerbydau ac offer ategol arall o fewn y gofod o 6 metr, cyhyd â bod 3 metr o le clir. Rhaid i garafanau neu bebyll beidio â bod yn llai na 2 fetr i ffwrdd o'r ffordd, os darperir ffyrdd.

Caiff hyd at chwech o bebyll gyda lle ar gyfer dim mwy na 12 o bobl (yn cynnwys plant), sy'n adnabod ei gilydd, ac sy'n ffurfio grŵp sy'n archebu lle gyda'i gilydd, feddiannu un llain. Rhaid i bobl yn y grŵp roi caniatâd i ffurfio grŵp fel rhagamod i'r gwerysyla. Bydd pebyll nad ydynt yn cael eu defnyddio i letya pobl yn cael eu cyfrif yn yr uchafswm o chwech ar gyfer y grŵp. Ni chaniateir i unrhyw babell mewn llain i grŵp fod yn nes na dau fetr at unrhyw babell arall yn y grŵp (mesurir hyn o bwynt agosaf ffabrig y babell, gan gynnwys adlen neu strwythur arall).

Rhaid cael "pellter gwahanu" o chwe metr rhwng y pebyll neu'r strwythurau allanol mewn un grŵp a rhai grŵp cyfagos, neu babell unigol, i bob cyfeiriad.

Lle caiff barbeciw, offer coginio, ceir, ôl-gerti a chychod eu gosod ymhlith y pebyll mewn unrhyw grŵp, rhaid i weithredydd y safle gynnal asesiadau risg i sicrhau bod y risg yn sgil tân a ffrwydriad yn cael ei chyfyngu gymaint â phosibl. Rhaid i weithredydd y safle sicrhau bod sylweddau eithriadol hylosg yn cael eu symud i ardal storio ddiogel, a bod cyfarpar a allai gynnal tân dwys yn cael ei gadw bellter rhesymol o unrhyw ffynhonnell danio.

D: Ffyrdd, Mynedfeydd, Llwybrau Troed

Rhaid darparu ffyrdd, mynedfeydd a llwybrau troed os dengys asesiad risg gan weithredydd y safle fod y safle'n anodd neu'n beryglus teithio ar ei ddraws mewn tywydd gwlyb.

Lle maent wedi'u darparu, rhaid i ffyrdd:

- fod o ddeunyddiau addas fel nad yw unrhyw lain fwy na 50 metr o'r ffordd;
- fod wedi'u llunio i ganiatáu mynediad digonol i gerbydau'r gwasanaethau brys fel eu bod o fewn 90 metr i unrhyw uned;
- fod o leiaf 3.7 metr o led yn achos system ddwy ffordd neu 3 metr o led os yw'n system un ffordd a nodwyd yn glir;
- fod wedi'u goleuo'n addas yn y nos yn ôl y galw, gan roi sylw i anghenion a nodweddion safle penodol;
- fod heb geblau uwchben llai na 4.5 metr uwchben y ddaear;
- gael eu cadw'n glir ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys bob amser.

Lle maent wedi'u darparu, rhaid i fynedfeydd cerbydau:

- fod o leiaf 3.1 metr o led;
- feddu ar gliriad uchder o 3.7m o leiaf;

Lle maent wedi'u darparu, rhaid i lwybrau troed:

- heb o leiaf 0.75 metr o led ac ag arwyneb caled;
- fod wedi'u goleuo'n addas yn y nos yn ôl y galw.

Lle mae ffyrdd, llwybrau troed a phalmentydd wedi'u darparu, rhaid sicrhau bod dŵr arwyneb yn cael ei ddraenio'n ddigonol.

F: Cyflenwad dŵr

Rhaid cael cyflenwad digonol o ddŵr yfed. Ni chaniateir i unrhyw lain ar y safle fod ymhellach na 90 metr o dap dŵr. Rhaid i bob tap agor uwchben gwli â thrap priodol sydd wedi'i gysylltu â draen a system waredu a gymeradwywyd gan y Cyngor. Rhaid bod gan y gwli balmant o'i gwmpas nad yw'n llai na 0.6m (2dr) o ddiamedr, ar oledf i gyfeiriad gratin y gwli.

G: Nwy Petrolewm Hylifedig

Rhaid i gyflenwadau a gosodiadau nwy fodloni rhannau perthnasol unrhyw ddeddfwriaeth, Safonau Prydeinig a Chodau Ymarfer y Gymdeithas Nwy LP sydd mewn grym ar unrhyw adeg. Rhaid darparu unrhyw dystysgrifau perthnasol i'r Cyngor ar gais.

H: Gosodiadau Trydanol

Rhaid bod gan y safle rwydwaith trydan sydd â chapasiti digonol i fodloni'n ddiogel holl ofynion rhesymol y carafanau yn ogystal â'r cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill. Rhaid gwneud unrhyw waith ar y rhwydwaith trydan o fewn y safle gan berson cymwys sy'n gwbl gyfarwydd â'r gofynion statudol priodol.

Rhaid i osodiadau trydanol fod yn ddarostyngedig i reoliadau'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol a rhaid iddynt gael eu dylunio, eu gosod, eu profi, eu harchwilio a'u cynnal a'u

cadw yn unol â BS 7671: 1992. Rhaid i unrhyw waith ar osodiadau a chyfarpar trydanol gael ei wneud gan unigolion sy'n gymwys i wneud y math penodol o waith dan sylw yn unig.

I: Draeniad, Hylendid a Chyfleusterau Ymolchi

Yn achos safleoedd sydd â hyd at 120 o leiniau, rhaid cael 2 doiled ar gyfer benywod, 1 toiled ac 1 wrinal ar gyfer dynion, ar gyfer pob 30 llain neu ran o hynny. Rhaid darparu 2 fasn golchi dwylo i fenywod a 2 i ddynion ar gyfer pob 30 o leiniau neu ran o hynny, gyda chyflenwad cyson o ddŵr ynddynt, ac wedi'u lleoli yn ymyl y toiledau. Yn achos safleoedd sydd â mwy na 120 o leiniau, gellir amrywio'r ddarpariaeth o ran toiledau a basnau golchi dwylo gyda chytundeb y Cyngor.

Rhaid darparu cawodydd gyda dŵr poeth ac oer ar dymheredd a reolir yn briodol, a hynny ar raddfa o 2 gawod i ddynion a 2 gawod i fenywod ar gyfer pob 60 o leiniau.

Rhaid darparu pwyntiau gwaredu wedi'u dylunio'n briodol ar gyfer toiledau cemegol, gyda chyflenwad digonol o ddŵr ar gyfer glanhau'r cynwysyddion. Rhaid nodi 'Nid Dŵr Yfed' ar y pwyntiau cyflenwad dŵr a gosod falfiau dim dychwelyd arnynt.

Rhaid darparu cyfleusterau golchi dillad ar safleoedd ar y raddfa ganlynol; un sinc dwfn i bob 30 carafán, gyda chyflenwad dŵr poeth ac oer ym mhob un. Yn achos safleoedd o 60 carafán neu fwy, rhaid darparu o leiaf un sinc dwfn gyda dŵr poeth ac oer digonol, a pheiriannau golchi dillad digonol.

Rhaid i'r dŵr budr gael ei ollwng naill ai i waith trin carthion cyhoeddus neu breifat, neu i danc septig neu garthbwl a gymeradwywyd gan y Cyngor.

J: Casglu a Gwaredu Sbwriel

Rhaid gwneud trefniadau digonol ar gyfer storio, casglu a gwaredu sbwriel.

K: Parcio

Rhaid darparu lle parcio ar gyfer o leiaf un car wrth bob carafán, a pharcio ychwanegol digonol i ymwelwyr, wedi'i leoli'n ddiogel, gan ganiatáu mynediad clir i gerbydau'r gwasanaethau brys. Ni ddylid parcio cerbydau fel eu bod yn rhwystro lôn gerbydau, llwybr troed na drws i garafán.

L: Lle Hamdden

Rhaid dyrannu tua degfed ran o gyfanswm ardal y safle ar gyfer gêmâu plant a/neu ddibenion hamdden eraill.

M: Hysbysiadau a Gwybodaeth

Rhaid arddangos yr arwyddion/hysbysiadau canlynol mewn man amlwg:

- enw'r safle wrth y mynedfeydd i'r safle, ynghyd ag enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyfredol deilydd y drwydded a'r rheolwr, a manylion cyswllt mewn argyfwng, h.y. yn nodi'r camau i'w cymryd mewn argyfwng, ac yn dangos ble gellir cysylltu â'r heddlu, y frigâd dân, yr ambiwlans a meddygon lleol;
- lleoliad ffôn argyfwng y safle;

- lleoliad a chyfeirnod grid y safle yn ymyl y ffôn argyfwng;
- yn ogystal, bydd y canlynol ar gael i'w harchwilio mewn lle amlwg:

copi o drwydded y safle a'r amodau cysylltiedig;
 copi o'r adroddiad archwilio trydanol cyfnodol diweddaraf;
 copi o dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus perchennog y safle;
 copi o'r asesiad risgiau tân a wnaed ar gyfer y safle.

- Rhaid i bob hysbysiad gael ei ddiogelu'n briodol rhag y tywydd a rhag golau haul uniongyrchol.

Os oes llinellau trydan uwchben ar y safle, rhaid arddangos rhybuddion ar y cynhalion ac wrth y fynedfa i'r safle. Lle bo hynny'n briodol, rhaid i'r rhain rybuddio ynghylch perygl cyswllt rhwng y llinellau hynny a mastiau iotiau neu ddingis.

N: Llifogydd

Rhaid i berchennog y safle ganfod a yw'r safle mewn perygl o ddioddef llifogydd trwy gyfeirio at Fap Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr ardal. Lle ceir perygl llifogydd, bydd perchennog y safle yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ynghylch tebygolrwydd llifogydd, dyfnder a chyflymder y dyfroedd y gellid eu disgwyl, argaeledd gwasanaeth rhybuddio, a pha gamau priodol i'w cymryd.

O: Cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Rhaid i berchennog y safle sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf o'r asesiad risgiau tân a gynhelir o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ar gael i'w harchwilio gan y trigolion a bod copi o'r asesiad risg ar gael i'r awdurdod lleol, ar gais.

P: Cyffredinol

Rhaid cadw gwasanaethau, amwynderau, adeiladau a strwythurau eraill ar y safle, cyfarpar chwarae neu gyfarpar arall, ffonau os ydynt wedi'u darparu, a'r safle ei hun mewn cyflwr da, ac yn lân, yn ddiogel, yn hylan, yn daclus a heb groniadau bob amser.

Lle bo hynny'n ymarferol, rhaid bod ffôn ar gael ar y safle bob amser i alw'r gwasanaethau brys.